# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 2**

CYNIGION TREFNIADAETH YSGOLION

*Cymeradwyo cynigion a phenderfynu arnynt*

**56 Dehongli Pennod 2**

(1) Yn y Bennod hon—

ystyr "y Cod" ("*the Code*") yw'r cod ar drefniadaeth ysgolion a ddyroddir o dan adran 38(1);

mae i "cyfnod gwrthwynebu" ("*objection period*") yr ystyr a roddir gan adran 49(2);

"cynigydd" ("*proposer*"), mewn perthynas â chynigion a wneir o dan adran 41, 42, 43, 44 neu 45, yw'r awdurdod lleol, y corff llywodraethu neu'r person arall sydd wedi gwneud y cynigion;

ystyr "newid rheoleiddiedig" ("*regulated alteration*") yw newid a ddisgrifir yn Atodlen 2;

ystyr "ysgol fach" ("*small school*") yw ysgol sydd â llai na 10 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y caiff y cynigion eu gwneud.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio drwy orchymyn y diffiniad o "ysgol fach" yn isadran (1) yn y fath fodd ag i roi cyfeiriad at ddyddiad gwahanol yn lle'r cyfeiriad at y dyddiad a bennir am y tro.